Llywodraeth Cymru
Welsh Government

CYHOEDDIAD, DOGFENNU

# Lwfans i Fyfyrwyr Anabl: canllawiau ar leoliadau tramor (SFWIN 09/2021)

Mae'r hysbysiad hwn yn disgrifio'r cymorth sydd ar gael i fyfyrwyr DSA sy'n astudio neu ar leoliad dramor.

**Cyhoeddwyd gyntaf:** 1 Mai 2024

**Diweddarwyd ddiwethaf:** 1 Mai 2024

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/lwfans-i-fyfyrwyr-anabl-canllawiau-ar-leoliadau-tramor-sfwin-092021-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

# Cynnwys


Asesu Anghenion

Cyfarpar

Meddalwedd gynorthwyol

Cymorth anfeddygol

Teithio

Llety



**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/lwfans-i-fyfyrwyr-anabl-canllawiau-ar-leoliadau-tramor-sfwin-092021-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

## Asesu Anghenion

1. Os yw myfyriwr yn gwneud cais am Lwfans i Fyfyrwyr Anabl a'i fod yn gymwys tra ei fod ar leoliad tramor, bydd yn cael ei wahodd i ymgymryd ag asesiad o'i anghenion, fel arfer. Gall hyn ddigwydd o bell, os oes angen, tra bo'r myfyriwr dramor.

## Cyfarpar

2. Byddem yn disgwyl i fyfyriwr sy'n mynd ar leoliad tramor fynd â'r cyfarpar cyfrifiadurol y mae eisoes wedi'i gael o dan y Lwfans gydag ef i'w ddefnyddio os oes angen. Dylai myfyrwyr gadarnhau cyn iddynt fynd bod unrhyw bolisi yswiriant sydd ganddynt ar gyfer cyfarpar a gafwyd o dan y Lwfans yn ddilys os yw'r cyfarpar yn cael ei gymryd dramor.

3. Os oes gan fyfyriwr unrhyw broblemau â'i gyfarpar cyfrifiadurol y mae wedi'i gael o dan y Lwfans pan fydd dramor (er enghraifft, cyfarpar yn torri, yn cael ei ddwyn ac ati), dylai gysylltu â chyflenwr ei gyfarpar yn y ffordd arferol.

4. Pan fo myfyriwr wedi cael cyfarpar o dan y Lwfans ac nad oes modd i'r myfyriwr gludo'r cyfarpar dramor yn rhesymol (er enghraifft, cadeiriau arbennig), ac y bydd angen y cyfarpar arno ar gyfer ei leoliad tramor, dylai'r myfyriwr yn gyntaf bennu a all y sefydliad neu'r cyflogwr tramor ddarparu'r cyfarpar. Pan na fo hyn yn bosibl, dylai'r myfyriwr gysylltu â'r sawl sy'n asesu ei anghenion er mwyn pennu'r dull mwyaf costeffeithiol o gael y cyfarpar hwn yn y lleoliad tramor (er enghraifft, cludo'r cyfarpar yno ac oddi yno drwy wasanaeth cludo neu brynu'r cyfarpar yn lleol). Yna, gall y sawl sy'n asesu anghenion y myfyriwr wneud argymhelliad i'r Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr yn y ffordd arferol, gan ddarparu dyfynbris ar gyfer y dull a argymhellir a nodi pam mai hwnnw yw'r dull mwyaf costeffeithiol. Dylai myfyrwyr gofio nad yw'r Cwmni Benthyciadau i

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/lwfans-i-fyfyrwyr-anabl-canllawiau-ar-leoliadau-tramor-sfwin-092021-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

Fyfyrwyr yn gallu gwneud taliadau i fanylion banc o'r tu allan i'r DU, felly, os yw'r Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr yn cymeradwyo argymhelliad i brynu cyfarpar yn lleol, bydd rhaid i'r myfyriwr brynu'r cyfarpar a hawlio'r gost yn ôl wedyn gan y Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr drwy ddarparu'r dderbynneb.

5. Os yw'r myfyriwr angen darn o gyfarpar ar gyfer ei leoliad tramor a fyddai wedi'i ddarparu fel addasiad rhesymol gan Ddarparwr Addysg Uwch y myfyriwr yn y DU, ni fydd hyn yn dod o dan gwmpas y Lwfans. Dylai'r myfyriwr siarad â'i Ddarparwr Addysg Uwch a'i sefydliad neu gyflogwr tramor er mwyn cytuno ar drefniant.

## Meddalwedd gynorthwyol

6. Os yw'r myfyriwr yn credu bod angen meddalwedd gynorthwyol ychwanegol arno oherwydd natur ei astudiaeth neu ei waith yn y lleoliad tramor (er enghraifft, ychwanegyn iaith dramor), dylai siarad â'r sawl sy'n asesu ei anghenion. Gall yr asesydd wneud argymhelliad i'r Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr wedyn yn y ffordd arferol.

## Cymorth anfeddygol

7. Os yw'r myfyriwr yn cael cymorth anfeddygol a ariennir o dan y Lwfans yn y DU, a bod modd i'r cymorth hwn gael ei ddarparu o bell tra bo'r myfyriwr dramor (er enghraifft, cymorth â sgiliau astudio neu gymorth mentora), bydd y Lwfans yn parhau i ariannu'r cymorth hwn tra bo'r myfyriwr dramor. Ni fydd angen cymeradwyaeth ychwanegol (oni bai fod angen newid cyflenwr, er enghraifft, oherwydd gwahaniaethau amser, wedyn bydd y broses arferol yn gymwys). Dylid cyflwyno anfonebau gan y cyflenwr cymorth anfeddygol i'r Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr yn y ffordd arferol.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/lwfans-i-fyfyrwyr-anabl-canllawiau-ar-leoliadau-tramor-sfwin-092021-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

8. Os yw'r myfyriwr yn cael cymorth anfeddygol wyneb yn wyneb a ariennir o dan y Lwfans, ac na ellir darparu'r cymorth hwn dramor (er enghraifft, dehongli Iaith Arwyddion Prydain), dylai'r myfyriwr yn gyntaf gysylltu â'i sefydliad neu ei gyflogwr tramor i bennu pa gymorth cyfatebol y gellir ei ddarparu yn ystod ei leoliad a (phan fo angen) i nodi cyflenwr addas. Dylai'r myfyriwr gysylltu â'r sawl sy'n asesu ei anghenion wedyn, a bydd yr asesydd yn gallu gwneud argymhelliad i'r Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr a rhoi dyfynbris am y gwaith. Byddem yn disgwyl i'r dyfynbris fod yn debyg i'r costau gwreiddiol. Dylai'r sawl sy'n asesu anghenion y myfyriwr geisio argymell gweithwyr cymorth yn unol â pholisi cyfredol y Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr ar gyfer y Lwfans i Fyfyrwyr Anabl, pan na fo hyn yn bosibl, yna bydd Llywodraeth Cymru yn ystyried a oes modd gwneud eithriad. Dylai'r sawl sy'n asesu anghenion y myfyriwr gynnwys manylion cymwysterau'r gweithiwr cymorth yn yr argymhelliad i'r Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr.

9. Os oes angen math o gymorth ar fyfyriwr ar ei leoliad tramor a fyddai wedi'i ddarparu fel addasiad rhesymol gan Ddarparwr Addysg Uwch y myfyriwr yn y DU, ni fydd y cymorth hwn yn dod o dan gwmpas y Lwfans. Dylai'r myfyriwr siarad â'i Ddarparwr Addysg Uwch a'i sefydliad neu ei gyflogwr tramor i gytuno ar drefniant.

10. Mae'n wir o hyd mai dim ond y cymorth sydd ei angen ar y myfyriwr er mwyn iddo allu ymgymryd â'i gwrs o ganlyniad i'w anabledd y gall y Lwfans ei ariannu. Os yw myfyriwr angen cymorth ychwanegol o ddydd i ddydd tra ei fod yn byw dramor, ni fydd y cymorth hwnnw'n dod o dan gwmpas y Lwfans.

# Teithio

11. Os yw'r myfyriwr yn gymwys ar gyfer costau ychwanegol cysylltiedig â'i anabledd ar gyfer teithio i'w sefydliad ac adref, sydd i'w talu gan y Lwfans, dylai'r myfyriwr siarad â'r sawl sy'n asesu ei anghenion fel y gellir gwneud argymhelliad

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/lwfans-i-fyfyrwyr-anabl-canllawiau-ar-leoliadau-tramor-sfwin-092021-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

i'r Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr i ariannu costau tramor cyfatebol o dan y Lwfans os oes angen. Dylai myfyrwyr gofio nad yw'r Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr yn gallu gwneud taliadau i fanylion banc o'r tu allan i'r DU, felly byddai rhaid i'r myfyriwr dalu am unrhyw drefniadau teithio tramor a gaiff eu cymeradwyo, gan wneud cais am ad-daliad gan y Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr drwy'r broses arferol o ddarparu derbynebau.

12. Pan fo myfyriwr angen ysgwyddo costau ychwanegol sy'n gysylltiedig â'i anabledd wrth deithio o'r DU i wlad y lleoliad, ac nad yw'r rhain wedi'u talu drwy fath arall o gyllid (er enghraifft, grantiau'r Cynllun Turing), dylai ofyn i'r sawl sy'n asesu ei anghenion i wneud argymhelliad i'r Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr i'r costau hyn gael eu talu o dan y Lwfans. Dylai hyn gael ei wneud cyn i'r myfyriwr deithio. Ni chynghorir myfyrwyr i ymrwymo i unrhyw wariant cyn i argymhelliad gael ei gymeradwyo.

## Llety

13. Pan fo myfyriwr angen ysgwyddo costau llety ychwanegol tra ei fod ar leoliad tramor, a hynny dim ond oherwydd ei anabledd, gellir ariannu'r costau hyn o dan y Lwfans. Dylai myfyriwr ofyn i'r sawl sy'n asesu ei anghenion i wneud argymhelliad i'r Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr.

**Efallai na fydd y ddogfen hon yn hollol hygyrch.**
Drllenwch ein **datganiad hygyrchedd** i gael rhagor o wybodaeth.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/lwfans-i-fyfyrwyr-anabl-canllawiau-ar-leoliadau-tramor-sfwin-092021-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.